

# Cymdeithas Gwasanaethau

## Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

### 9. Asedau

#### 9.5 Cerbydau



Wrth brynu cerbydau i'w defnyddio gan fudiad gwirfoddol, mae'n werth siopa o gwmpas oherwydd gellir gwneud arbedion sylweddol gyda'r bargeinion a gynigir gan wneuthurwyr a chyflenwyr. Mae hefyd yn werth pwyso a mesur manteision cymharol rhentu, lês-brynu a phrynu. Dylid hefyd ystyried dibrisio cyn dewis y naill opsiwn neu'r llall.

Wrth brydlesu cyfarpar, darllenwch pob contract yn ofalus. Byddwch yn glir ynghylch beth y byddwch yn cytuno iddo – hyd y contract, cytundeb cynnal a chadw ac amodau canslo'r contract. Os oes gennych statws elusennol, gallwch efallai ddefnyddio hyn i fargeinio. Efallai y bydd rhai cwmnïau masnachol yn barod i roi cerbydau ichi os yw'n bryd iddynt uwchraddio eu fflyd.

Dylid ystyried y gost o drethu ac yswirio cerbydau wrth gyllidebu. Mae yswiriant yn ystyriaeth fawr ynddi ei hun a dylech ddeall y gofynion cyfreithiol a pholisi'n drylwyr, yn enwedig ar gyfer bysus mini a faniau. Rhaid cael yswiriant trydydd parti o leiaf.

Ers Ebrill 2002, mae newid sylfaenol wedi bod yn y ffordd y mae ceir cwmni'n cael eu trethu i helpu i ddiogelu'r amgylchedd. Mae ceir glanach, mwy tanwydd effeithlon yn awr yn cael eu gwobrwyo drwy gysylltu'r taliadau treth ac Yswiriant Gwladol i ollyngiadau pibell wacáu y car, yn enwedig gollyngiadau carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>).

Rhaid i bob car newydd gwrdd â safonau Ewropeaidd ar ollyngiadau (Ewro Safonau). Ar hyn o bryd, rhaid i geir newydd gwrdd â safonau Ewro IV.

### Yswirio cerbydau

Os oes gan fudiad unrhyw gerbydau modur sy'n teithio ar y ffordd gyhoeddus, rhaid eu hyswirio er mwyn cydymffurfio â Deddf Traffig Ffyrdd 1988, a.143(1). Hefyd, lle mae gwirfoddolwyr a staff yn defnyddio eu ceir eu hunain ar gyfer siwrneiau gwaith (ar wahân i deithio i ac o'u gwaith), rhaid iddynt roi gwybod i'w cwmni yswiriant a threfnu yswiriant ychwanegol os oes angen. Gall gwirfoddolwyr hawlio'r gost ychwanegol yma'n ôl fel arfer ac, ar gyfer elusennau, mae hefyd yn gost y gellir ei hadennill yn gyfreithlon o gyllid yr elusen.

### Gyrwyr gwirfoddol

Mae angen i'r mudiad gael gwybod os yw gyrwyr gwirfoddol:

- Gyda hawl gyfreithiol i yrru'r cerbyd y maen nhw'n ei ddefnyddio
- Yn defnyddio cerbyd sy'n ddiogel ac yn gyfreithlon ar y ffordd
- Wedi cael eu hyfforddi'n briodol ac yn gymwys i yrru'r cerbyd yn ddiogel.
- Yn defnyddio'r cerbyd at ddibenion addas.

Os yw'r mudiad yn darparu'r cerbyd, bydd angen iddo sicrhau ei fod wedi'i gofrestru a'i drethu'n iawn, bod ganddo dystysgrif MOT, a'i fod wedi'i wasanaethu a'i yswirio. Cyn bod gyrwyr gwirfoddol yn cael gyrru ar ran eich mudiad, dylech ofyn am gael gweld eu trwydded yrru pan fyddant yn dechrau, a phob yn hyn a hyn wedyn.

## **Bysus mini**

Os cafodd y gyrrwr ei drwydded yrru ar ôl 1 Ionawr 1997, efallai y bydd angen iddo gael hawliad D1 ar ei drwydded i yrru bws mini. Mae rhai gyrwyr gwirfoddol, ond nid pawb, sy'n gyrru bws mini ar gyfer mudiad anfasnachol wedi eu heithrio o'r gofyniad hwn.

## **Defnyddio eu cerbydau eu hunain**

Hyd yn oed os yw gyrrwr yn defnyddio ei gerbyd ei hun, mae gan y mudiad gwirfoddol yr un dyletswydd cyfreithiol i sicrhau ei fod yn ddiogel a chyfreithiol pan fo'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth iddynt.

Felly, efallai y bydd angen ichi gadarnhau bod y cerbyd wedi'i drethu a'i wasanaethu, bod ganddo dystysgrif MOT a bod y gyrrwr wedi'i yswirio i'w yrru i bwrpas gwirfoddol.

## **Troseddau moduro**

Dylai'r gyrrwr roi gwybod i'r mudiad am unrhyw droseddau moduro, gan gynnwys rhybuddion, gwysion neu euogfarnau.

## **Polisi'r mudiad**

Dylai fod gan y mudiad bolisi o sicrhau:

- Y bydd trwyddedau gyrru'n cael eu gwirio.
- Y bydd yswiriant yn cael ei wirio.
- Y bydd tystysgrifau MOT yn cael eu gwirio.
- Y bydd dogfennau gwasanaeth yn cael eu gwirio.

## Gwybodaeth bellach

DirectGov

[www.direct.gov.uk/Topics/Motoring](http://www.direct.gov.uk/Topics/Motoring)

Y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol

[www.communitytransport.com](http://www.communitytransport.com)

Yr Asiantaeth Tystysgrifo Cerbydau

[www.vcacarfueldata.org.uk](http://www.vcacarfueldata.org.uk)

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal

Damweiniau

[www.rospa.com](http://www.rospa.com)

Y Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru  
a Lloegr

Ffôn: 0845 3000 218

[www.charity-commission.gov.uk](http://www.charity-commission.gov.uk)

Y Ganolfan Trwyddedu Gyrwyr a  
Cherbydau

[www.dvla.gov.uk](http://www.dvla.gov.uk)

Yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau  
a Gweithredwyr (VOSA)

[www.vosa.gov.uk](http://www.vosa.gov.uk)

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

**Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro**

36-38 Stryd Fawr, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 2DA

**Elusen Gofrestredig** 1063289

**Ffôn:** 01437 769422

info@pavs.org.uk

**Ffacs:** 01437 769431

www.pavs.org.uk



Ffôn: 0800 2888 329

[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

Cynhyrwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli  
**Wedi ei ddiweddarau:** 04/12/2009